


Pecyn Dogfen Cyhoeddus



Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol
Areas of Outstanding Natural Beauty

Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy AHNE
Park Gwledig Loggerheads, Yr Wyddgrug, Sir Ddinbych CH7 5LH

Clwydian Range and Dee Valley AONB
Loggerheads Country Park, Nr. Mold, Denbighshire CH7 5LH

Ffon | Tel: 01352 810614 | Ffacs | Fax: 01352 810644
E-bost | E-mail: clwydianrangeanddeevalley@denbighshire.gov.uk
Gwefan: www.ahnebryniauclwydadyffryndyfrdwy.org.uk/
Web: www.clwydianrangeanddeevalleyaonb.org.uk/

[www.facebook.com/Clwydian Range & Dee Valley AONB](https://www.facebook.com/ClwydianRange&DeeValleyAONB)

[@Clwyd_Deer_AONB](https://twitter.com/Clwyd_Deer_AONB)

At: Aelodau'r Cyd-bwyllgor
Ardal o Harddwch Naturiol
Eithriadol Bryniau Clwyd a
Dyffryn Dyfrdwy

Dyddiad: Dydd Gwener, 14 Mehefin 2024

Rhif
Union: 01824 712589

Ebost: democrataidd@sirddinbych.gov.uk

Annwyl Gynghorydd

Fe'ch gwahoddir i fynychu cyfarfod y **Cyd-bwyllgor Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy, Dydd Gwener, 21 Mehefin 2024 am 10.00 am yn Neuadd y Dref, Wrecsam a thrwy gynhadledd fideo.**

Yn gywir iawn

G Williams
Swyddog Monitro

AGENDA

- 1 CYFLWYNIADAU, YMDDIHEURIADAU A DATGAN CYSYLLTIAD**
- 2 COFNODION DRAFFT CYFARFOD Y CYD-BWYLLGOR A GYNHALIWDYD AR 12 EBRILL 2024** (Tudalennau 5 - 12)

Ystyried cofnodion (copi ynghlwm) cyfarfod blaenorol Cyd-bwyllgor AHNE a gynhaliwyd ar 12 Ebrill 2024.

- 3 COFNODION GAN EIN GRWP LLYWIO TIRLUN LLUNIAU A GYNHALIWDYD AR 30 EBRILL 2024** (Tudalennau 13 - 16)

Ystyried cofnodion (copi ynghlwm) o gyfarfod Tirweddau Pictiwrésg a gynhaliwyd ar 30 Ebrill 2024 (DS).

4 CYFLWYNIAD PROSIECT CYSYLLTIADAU Â'R CURLEW

Derbyn diweddariad llafar gan Sam Kenyon a Rhun Jones ar Brosiect Curlew Connections.

5 Y WYBODAETH DDIWEDDARAF AM BROSIECT DYNODI PARC CENEDLAETHOL GOGLEDD DDWYRAIN CYMRU

Derbyn diweddariad llafar gan Reolwr Rhaglen CNC, Ash Pierce, ar Brosiect Dynodi Parc Cenedlaethol Gogledd Ddwyrain Cymru.

6 ADRODDIAD BLYNYDDOL Y CYD-BWYLLGOR (EITEM SEFYDLOG) (Tudalennau 17 - 32)

Ystyried adroddiad Diweddarau Ffurflen Flynyddol y Cyd-bwyllgor (copi ynghlwm) (SG a PO).

7 RHAGLEN GWAITH I'R DYFODOL (EITEM SEFYDLOG) (Tudalennau 33 - 38)

Ystyried y Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol (copi ynghlwm) gan y Swyddog AHNE (HS).

8 DYDDIADAU CYFARFODYDD DYFODOL

Er gwybodaeth – dyddiad cyfarfod nesaf Cyd-bwyllgor AHNE yw 15 Tachwedd 2024.

9 LLOFNODI CYDNABOD

I arwyddo'r Cydgytundeb.

AELODAETH

Y Cynghorwyr

David Healey
Dave Hughes
Alan James

Hugh Jones
Nigel Williams
Emrys Wynne

COPIAU I'R:

Holl Gynghorwyr er gwybodaeth
Y Wasg a Llyfrgelloedd
Cynghorau Tref a Chymuned



CYD-BWYLLGOR ARDAL O HARDDWCH NATURIOL EITHRIADOL BRYNIAU CLWYD A DYFFRYN DYFRDWY

Cofnodion cyfarfod o'r Cyd-bwyllgor Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy a gynhaliwyd yn Siambr y Cyngor, Neuadd y Sir, Rhuthun a thrwy gynhadledd fideo, Dydd Gwener, 12 Ebrill 2024 am 10.00 am.

YN BRESENNOL

Cynghorwyr David Healy (CSFf) Dave Hughes (CSFf) Nigel Williams (CBSW) ac Emrys Wynne (CSDd)

HEFYD YN BRESENNOL

Steve Gadd (Rheolwr Cyllid a Sicrwydd), Mike Bather (Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam), Ceri Lloyd (Swyddog Cronfa Datblygu Cynaliadwy AHNE), Paula O'Hanlon (Uwch Swyddog Cyllid, CSDd) Howard Sutcliffe (Swyddog AHNE), David Shiel (Rheolwr Ardal AHNE), Karen Weaver (Cydlunydd AHNE), Clare Lord (Cyfreithiwr/ Arweinydd Tîm Lleoedd, CSDd), Ash Pearce (Arweinydd Tîm Rhaglen Tirweddau Dynodedig, CNC), Nicola Hughes (Gweinyddwr Pwyllgorau, CSDd), Sharon Walker (Gweinyddwr Pwyllgorau/Gweinyddwr Zoom, CSDd)

Arsylwyr: Cynghorydd Bobby Feeley (Partneriaeth AHNE), John Roberts (Partneriaeth AHNE), Mike Skuse (Partneriaeth AHNE).

1 CYFLWYNIADAU, YMDDIHEURIADAU A DATGAN CYSYLLTIADAU

Agorwyd y cyfarfod gan Howard Sutcliffe, Swyddog AHNE Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy a Rheolwr y Gwasanaeth Ceidwaid. Fe wnaeth yr Arweinydd Tîm Lleoedd a'r Cyfreithiwr, Clare Lord, awgrymu i bawb oedd yn y cyfarfod eu cyflwyno eu hunain er mwyn i'r sawl oedd yn cadw cofnodion nodi presenoldeb yn y cyfarfod ar gyfer y cofnodion.

Cafwyd ymddiheuriadau gan y Cynghorydd Win Mullen-James (CSDd), y Cynghorydd Hugh Jones (CBSW) ac Andy Worthington (Cadeirydd Partneriaeth yr AHNE).

2 ETHOL CADEIRYDD AC IS-GADEIRYDD (CL)

Gofynnwyd am enwebiadau i ethol Cadeirydd ac Is-gadeirydd Cyd-bwyllgor Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy.

Fe wnaeth y Cynghorydd Emrys Wynne enwebu David Hughes yn Gadeirydd, ac eiliwyd hyn gan David Healy.

Fe wnaeth David Hughes enwebu Nigel Williams yn Is-gadeirydd, ac eiliwyd hyn gan David Healy.

Ni chafwyd unrhyw enwebiadau eraill, felly:

PENDERFYNWYD: *ethol David Hughes yn Gadeirydd a Nigel Williams yn Is-gadeirydd Cyd-bwyllgor Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy.*

3 COFNODION DRAFFT CYFARFOD CYD-BWYLLGOR YR AHNE A GYNHALIWDYD AR 17 TACHWEDD 2023

Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod Cyd-bwyllgor Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy a gynhaliwyd ar 17 Tachwedd 2023.

Cywirdeb –

Tudalen 5 (cofnodion) – Huw Jones i gael ei newid i Hugh Jones.

Tudalen 8 (cofnodion) – Moel Fammau i gael ei newid i Moel Fammau.

Materion yn codi –

Ni thrafodwyd unrhyw faterion sy'n codi.

PENDERFYNWYD: *yn amodol ar yr uchod, y dylid derbyn a chymeradwyo cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 13 Tachwedd 2023 fel cofnod cywir o'r trafodaethau.*

4 COFNODION DRAFFT CYFARFOD PARTNERIAETH AHNE A GYNHALIWDYD AR 26 IONAWR 2024

Derbyniwyd cofnodion drafft cyfarfod Partneriaeth Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy a gynhaliwyd ar 26 Ionawr 2024 er gwybodaeth.

Tynnodd Swyddog yr AHNE sylw at y pwyntiau canlynol o'r cofnodion –

Cafwyd cyflwyniad yn y cyfarfod yn mynd i'r afael â Chynhwysiant, Amrywiaeth a Llywodraethu i weithio tuag at gael amrywiaeth yn Aelodaeth Partneriaeth yr AHNE.

Roedd gwaith i wella'r bloc toiledau a'r maes parcio bellach wedi'i gwblhau wrth Raeadr y Bedol i wella llif traffig ac ymwelwyr.

Gorllewin Clwyd – Cronfa Ffyniant Bro – roedd cynlluniau'n cael eu comisiynu ar gyfer Loggerheads i liniaru llifogydd ar y safle.

Roedd penseiri wrthi'n gweithio ar ddyluniadau i greu canolfan ymwelwyr ym Moel Fammau i helpu i reoli ymwelwyr.

PENDERFYNWYD: *nodi cofnodion cyfarfod Partneriaeth yr AHNE a gynhaliwyd ar 26 Ionawr 2024.*

5 COFNODION O GYFARFOD Y GRŴP LLYWIO TIRLUNIAU DARLUNIADWY A GYNHALIWDYD AR 23 IONAWR 2024

Derbyniwyd cofnodion drafft cyfarfod Partneriaeth Ein Tirlun Darluniadwy a gynhaliwyd ar 23 Ionawr 2024 er gwybodaeth.

Tynnodd Rheolwr Ardal yr AHNE sylw at y canlynol o'r cofnodion –

Roedd llwybr cysylltu allweddol Wenffrwd at y gamlas yn ddarn o beirianeg heriol ac roedd y gwaith hwn bellach wedi'i gwblhau.

Byddai Amgueddfa Llangollen yn cynnal ei harddangosfa olaf yn dangos gwaith Ein Tirlun Darluniadwy o ddiwedd Ionawr ac roedd Capel Ebenezer yng Nghefn Mawr wedi dangos diddordeb yn yr arddangosfa ar gyfer gwanwyn/haf 2024.

PENDERFYNWYD: nodi cofnodion cyfarfod y Grŵp Llywio Tirluniau Darluniadwy a gynhaliwyd ar 23 Ionawr 2024.

6 CYFLWYNIAD AC ADRODDIAD AR STRATEGAETH DDRAFFT TWRISTIAETH GYNALIADWY 2023–2028

Arweiniodd Swyddog Datblygu Cynaliadwy'r Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol yr Aelodau drwy'r cyflwyniad ar Strategaeth Ddrafft Twristiaeth Gynaliadwy 2023–2028.

Roedd y Strategaeth yn amlinellu'r weledigaeth hirdymor ar gyfer twristiaeth gynaliadwy yn AHNE Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy.

Roedd y weledigaeth yn cydnabod –

- y nifer gynyddol o bobl oedd yn cymryd rhan mewn hamdden awyr agored, oedd yn rhoi mwy a mwy o bwysau ar ecosystemau bregus a gwerthfawr
- yr heriau rhanbarthol a byd-eang sy'n codi o argyfyngau hinsawdd a natur
- yr heriau sy'n wynebu'r diwydiant yn sgil yr argyfwng costau byw a thueddiadau mewn twristiaeth ar ôl Covid-19
- y statws Parc Cenedlaethol arfaethedig ar gyfer ardal sy'n cynnwys AHNE Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy

Strategaeth Twristiaeth Gynaliadwy 2023–2028 oedd y trydydd cynllun a ddatblygwyd ers 2015. Yn 2015, roedd yr effaith ar amgylchedd naturiol yr AHNE wedi'i dynodi i fod yn eithaf cyfyngedig, ond roedd rhywfaint o erydu a phwysau ar gynefinoedd wedi bod o ganlyniad i ordddefnydd mewn ambell leoliad ar adegau penodol. Yn 2019, cynhaliwyd arfarniad o effaith i gasglu barn personél oedd yn gweithio yn ardaloedd yr AHNE ynglŷn ag effaith twristiaeth ar ardaloedd yr AHNE. Wrth ddwyn yr ymatebion ynghyd, roedd teimlad y gallai twf twristiaeth mewn ardal, heb sicrhau bod cynaliadwyedd yn ganolog i hynny, gael effeithiau difrifol ar ffyrdd pobl o fyw, cynefinoedd naturiol a bywyd gwylt, safleoedd hanesyddol ac adnoddau

hanfodol fel dŵr ac ynni; heb gynllunio gofalus, gallai effeithiau negyddol fod yn drech wrth i dwristiaeth dyfu. Yn y pen draw, gallai hynny ddirywio'r ardal ac arwain at ddinistrio ei hasedau.

Roedd y Strategaeth Ddrafft Twristiaeth Gynaliadwy yn cynnwys proses i roi'r Weledigaeth a'r Cynllun Gweithredu Twristiaeth Gynaliadwy ar waith, oedd yn cynnwys y dull, ymgorffori 9 nod y weledigaeth ac ymrwymiad.

Y 9 nod yn y Strategaeth Twristiaeth Gynaliadwy oedd –

- Bioamrywiaeth
- Cymunedau a Diwylliant
- Rheoli Ymwelwyr
- Cefnogi Busnesau
- Ôl-troed Carbon
- Gwastraff
- Lliniaru ac Addasu
- Cyfathrebu ag ymwelwyr
- Monitro ac Arfarnu

Ym mis Ionawr 2024, cynhaliwyd cyfarfod i flaenoriaethu'r nodau o fewn y Cynllun Gweithredu. Eglurodd Swyddog Datblygu Cynaliadwy'r AHNE ragor am bob nod o fewn y strategaeth i'r Pwyllgor a'r ymatebion a gafwyd yn ôl gan y personél ynglŷn â phob nod.

Dywedodd Swyddog Datblygu Cynaliadwy'r AHNE fod Gweledigaeth Twristiaeth Gynaliadwy AHNE Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy ar gyfer 2050 yn cydnabod bod cymunedau/diwylliant, tirwedd ac amgylchedd AHNE Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy yn ganolog i gynnig twristiaeth yr ardal ac yn diffinio sut y gall rheoli a darparu twristiaeth hyrwyddo a darparu profiadau o natur unigryw a harddwch yr ardal wrth warchod a gwella ei rhinweddau arbennig hefyd.

Diolchodd y Cadeirydd i Swyddog Datblygu Cynaliadwy'r AHNE am y cyflwyniad manwl a dywedodd bod croeso i'r Aelodau ofyn cwestiynau.

Gwnaeth yr Aelodau sylwadau ynglŷn â'r llun o sbwriel yn ardaloedd yr AHNE yn y cyflwyniad gan ddweud bod hon yn broblem i'r Awdurdod Lleol. Awgrymodd yr Aelodau annog y cyhoedd i fynd â'u sbwriel adref gyda nhw a chyfeiriwyd at y dulliau casglu gwastraff mewn gwahanol wledydd yn cynnwys biniau tanddaearol gyda mwy o le.

Tynnodd yr Aelodau sylw at yr her o leihau ôl-troed carbon ymwelwyr gan gyfeirio at gludiant cynaliadwy, yn enwedig bysiau, a gofynnwyd pa gynlluniau oedd ar waith os oedd gormod o ymwelwyr yn yr ardal ar ryw adeg. Dywedodd Swyddog Datblygu Cynaliadwy'r AHNE fod ôl-troed carbon ymwelwyr yn cael ei monitro, a byddai'n casglu'r wybodaeth ac yn dod yn ôl at y Pwyllgor mewn cyfarfod yn y dyfodol.

PENDERFYNWYD: bod y Pwyllgor yn mabwysiadu'r Weledigaeth a'r Cynllun Gweithredu Twristiaeth Gynaliadwy ar gyfer yr AHNE am flynyddoedd 2023–2028.

7 Y WYBODAETH DDIWEDDARAF AM BROSIECT DYNODIAD PARC CENEDLAETHOL GOGLEDD DDWYRAIN CYMRU

Rhoddodd Arweinydd Tîm y Rhaglen Tirweddau Dynodedig gyflwyniad oedd yn cynnwys gwybodaeth am y pwyntiau canlynol:-

- Trosolwg ar Gynnydd
- Asesiadau
- Ymgysylltu â'r Cyhoedd
- Camau Nesaf
- Newidiadau i'r Grŵp Ymgynghorol

Rhoddwyd trosolwg bras i'r Aelodau ar yr elfennau allweddol o'r Adroddiad ar Rinweddau Arbennig, Adroddiad 'Forces for Change' a'r Adroddiad Opsiynau Rheoli oedd yn berthnasol i Brosiect Dynodiad Parc Cenedlaethol Gogledd-ddwyrain Cymru.

Rhoddwyd manylion am y strategaeth ymgysylltu a oedd wedi'i chynnal yn yr ardaloedd o amgylch y Parciau Cenedlaethol newydd arfaethedig, a chafwyd 949 o ymatebion, yn gyffredinol yn mynegi teimladau cadarnhaol a gobeithiol ynglŷn â'r Parc Cenedlaethol. Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebion wedi dod gan drigolion lleol. Cyflwynwyd tabl o bryderon cyffredin i'r Pwyllgor, a'r meysydd oedd yn peri'r mwyaf o bryder oedd heddwch a chynaliadwyedd yr ardal a'r effeithiau ar wasanaethau cyhoeddus.

Roedd y camau nesaf ar gyfer Prosiect Dynodiad Parc Cenedlaethol Gogledd-ddwyrain Cymru yn cynnwys adroddiad i gael ei lunio ar y cyfnod ymgysylltu ac ar gynnal Asesiad o Effaith a Dadansoddiad o Fanteision, gan ymgynghori'n gyhoeddus yn hydref 2024.

Diolchodd yr Cadeirydd i Arweinydd Tîm y Rhaglen Tirweddau Dynodedig am y cyflwyniad manwl gan ddweud bod croeso i'r Aelodau ofyn cwestiynau.

Gofynnodd yr Aelodau am eglurhad ynglŷn â'r Grŵp Ymgynghorol Rheoli gan ofyn a fyddai hwnnw'n cynnwys yr Aelodau. Eglurodd yr Arweinydd Tîm mai grŵp ar lefel weithredol oedd y Grŵp ar hyn o bryd ac nad oedd yn cynnwys yr Aelodau ar y cam hwn.

Trafododd yr Aelodau'r dryswch oedd o fewn Cymunedau ac ymysg llawer o'r Aelodau ynglŷn â'r gwahaniaeth rhwng yr AHNE a Pharc Cenedlaethol a dywedwyd bod angen addysgu rhagor ar y cyhoedd a'r Aelodau ynglŷn â'r gwahaniaeth. Eglurodd yr Arweinydd Tîm fod cynlluniau ar y gweill i gynnal gweithdai am y Parc Cenedlaethol i'r holl Aelodau yn y dyfodol a byddai rhagor o ddiweddariadau cyson yn cael eu darparu wrth i'r prosiect barhau.

Diolchodd y Cadeirydd i Arweinydd Tîm y Rhaglen Tirweddau Dynodedig am y cyflwyniad ac am ddod i'r cyfarfod.

PENDERFYNWYD: *nodi'r diweddariad ar Brosiect Dynodiad Parc Cenedlaethol Gogledd-ddwyrain Cymru.*

8 CYFLWYNIAD AC ADRODDIAD AILFRANDIO TIRWEDD CENEDLAETHOL

Rhoddodd Swyddog yr AHNE Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy a Rheolwr y Gwasanaeth Ceidwaid drosolwg i'r Pwyllgor ar yr adroddiad ar Ailfrandio Tirwedd Cenedlaethol.

Dros sawl blwyddyn, roedd dau adroddiad cenedlaethol, Adolygiad Marston (Cymru) ac Adolygiad Glover (Lloegr) wedi edrych ar sut fyddai modd gwella pob agwedd ar AHNE gan gynnwys eu cyfeiriad yn y dyfodol. Un o'r prif gyfleoedd oedd adfywio enw, cyfeiriad a brandio.

Roedd y ddau adroddiad yn awgrymu newid yr enw AHNE i Dirwedd Cenedlaethol. Ar 22 Tachwedd 2023, daeth ardaloedd oedd yn AHNE, yn bennaf yn Lloegr, yn Dirweddau Cenedlaethol. Ers nifer o flynyddoedd, mae'r acronym AHNE wedi'i gam ynganu, ei gamddeall ac wedi parhau i fod yn y cefndir o ran dynodiadau.

Roedd timau AHNE/Tirweddau Cenedlaethol wedi bod yn flaenllaw o ran darparu atebion naturiol i'r prif heriau sydd wedi wynebu'r genedl ers nifer o flynyddoedd. Mae'r brand newydd yn tanlinellu eu hymrwymiad i ymdrechu'n galetach ac ymgysylltu â chynulleidfa ehangach. Roedd ailfrandio'n nodi'r cam nesaf i wireddu'r weledigaeth Tirweddau Cenedlaethol yn llwyr, i fod yn enghreifftiau blaengar o sut y gall cymunedau amrywiol, llewyrchus weithio gyda ac er budd natur ym Mhrydain: gan adfer ecosystemau, darparu bwyd, storio carbon i liniaru effeithiau newid hinsawdd, gwarchod rhag sychder a llifogydd, a meithrin iechyd a lles pobl hefyd.

Fe wnaeth Rheolwr Ardal a Rheolwr Tîm yr AHNE dywys yr Aelodau trwy gyflwyniad oedd yn rhoi rhagor o wybodaeth, yn cynnwys –

- Rhagarweiniad ac amcanion yr ailfrandio
- Sut y datblygwyd y brand
- Rhagarweiniad i hunaniaeth y brand

Roedd pob Tirwedd Cenedlaethol wedi gweithio gyda Nice and Serious i ddatblygu logo newydd a oedd yn adlewyrchu eu tirwedd nhw neu un o'u rhywogaethau eiconig. Bellach, roedd cyfres o 39 o logos (yn cynnwys logo Cymdeithas y Tirweddau Cenedlaethol) a oedd yn creu clytwaith yn cynrychioli'r teulu cyfan. Cafodd y Pwyllgor weld y 39 logo ac eglurwyd y rheswm am eu gwahanol liwiau.

Diolchodd y Cadeirydd i Reolwr Ardal yr AHNE am y cyflwyniad ac i Swyddog yr AHNE a Rheolwr y Gwasanaeth Ceidwaid am ei adroddiad ac dywedwyd bod croeso i'r Pwyllgor wneud sylwadau.

Mynegodd yr Aelodau bryder ynglŷn â chost yr ailfrandio a chyfeiriwyd hefyd at y cynlluniau am Barc Cenedlaethol newydd, a fyddai'n golygu ailfrandio eto yn y dyfodol agos. Sicrhodd Swyddog AHNE Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy a Rheolwr y Gwasanaeth Ceidwaid yr Aelodau y byddai'r gost yn cael ei rheoli'n ofalus.

PENDERFYNWYD: bod y Cyd-bwyllgor yn mabwysiadu ailfrandio ardaloedd yr AHNE yn Dirweddau Cenedlaethol Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy ac yn troi'n Gyd-bwyllgor y Tirwedd Cenedlaethol.

9 ADRODDIAD DIWEDDARU AR DDATGANIAD BLYNYDDOL Y CYD-BWYLLGOR (EITEM SEFYDLOG)

Rhoddodd y Pennaeth Cyllid ac Eiddo, Steve Gadd, ddiweddariad bras ar adroddiad Datganiad Blynyddol y Cyd-bwyllgor i'r Pwyllgor.

Roedd yr adroddiad yn manylu ar sefyllfa derfynol cyllideb referniw'r Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol (AHNE) ar gyfer 2023/24. Y sefyllfa gyffredinol, ddisgwyliedig oedd cyfraniad o'r cronfeydd referniw wrth gefn o tua £20,000 – ychydig yn llai na'r disgwyl pan osodwyd y gyllideb.

Roedd yr adroddiad wedi'i archwilio a'i gymeradwyo a byddai llythyr gan y Tîm Archwilio'n cael ei gyflwyno i gyfarfod nesaf y Pwyllgor.

PENDERFYNWYD: nodi Sefyllfa Derfynol a Chyfrifon 2023/2024 Cyd-bwyllgor yr AHNE.

10 Y RHAGLEN WAITH (EITEM SEFYDLOG)

Cyflwynodd HS y rhaglen waith a rhoddodd ddiweddariad ar lafar am gynnydd ar yr eitemau a restrwyd, gan amlygu'r canlynol:

- Roedd cynnig newydd am flwyddyn wedi dod i law gan Gyfoeth Naturiol Cymru am gyllid, ond yn anffodus, roedd hwn wedi gostwng o gynnig am dair blynedd.
- Bu gwaith ymgynghori ynghlwm â Chynllun Rheoli'r AHNE, roedd Cyfoeth Naturiol Cymru wedi comisiynu Land Use Consultants i ailysgrifennu'r canllawiau ar gyfer Cynlluniau Rheoli Tirweddau Cenedlaethol.
- Roedd Cytundeb Cyfreithiol yr Awdurdod Lleol wedi'i adolygu ym mis Ionawr 2024. Cytunwyd na fyddai angen adolygiadau i Gytundeb Cyfreithiol y Cyd-bwyllgor, fodd bynnag, fe fyddai angen ei anfon at Gynghorau Wrecsam a Sir y Fflint.
- Roedd Cefnogwyr yr AHNE wedi gofyn am gael eu cynnwys ym mhob agwedd o waith y Pwyllgor ac roedd mwy o gyfarfodydd agored ac eang wedi'u cynnal i hwyluso hyn.
- Roedd mentrau Awyr Dywyll, yn cynnwys newid goleuadau, wedi cael effaith fawr yn Llangollen ac wedi helpu i leihau costau ynni.

Trafododd yr Aelodau effaith gollwng carthion i afonydd a'r môr a gofynnwyd a oedd yn berthnasol i'r mater gael ei gynnwys ar y Rhaglen Waith. Ar ôl trafod, cytunwyd

ar gysylltu â chynrychiolwyr Dŵr Cymru a Phrosiect LIFE Afon Dyfrdwy i gynghori a fyddent yn fodlon dod i un o gyfarfodydd y Pwyllgor yn y dyfodol.


PENDERFYNWYD: *nodi'r Rhaglen Waith.*

11 DYDDIADAU CYFARFODYDD Y DYFODOL

Roedd cyfarfod nesaf Cyd-bwyllgor yr AHNE wedi'i drefnu at 21 Mehefin 2024.

PENDERFYNWYD: *nodi dyddiad y cyfarfod yn y dyfodol.*

Daeth y cyfarfod i ben am 11.55am



Our Picturesque Landscape Project Steering Group Meeting Minutes, Froncysyllte Community Centre Froncysyllte, Wrexham.

Tuesday 30th April 2024 10am to 12pm.

Members Present

David Shiel (DS), Hannah Marubbi (HM) Jillian Howe (JH), Mike Bather (MB), Howard Sutcliffe (HS), Ffion Roberts (FR), Del Roberts Jones (DRJ).

Apologies

Sallyanne Hall (SH), Lynne Jones (LJ), Rhun Jones (RJ) Paul Evans (PE), Fiona Grant (FGr), Huw Rees (HR), Fiona Gale (FG) Carly Davies (CD), John Roberts (JR).

1. Welcome and Apologies		Actions
2. Minutes of last meeting update	<p>HS noted that Ian Hughes, NRW will join the group for the remaining meetings and all to be included in all correspondence.</p> <p>DS updated the group on the progress of the work to the Horseshoe falls. Work on the car park is now complete, with an increase in parking spaces and drainage work is complete, but work continues to the drop off points and to for future electric point. Height barrier still not installed. Discussions are in hand regarding the best way to move forward with paddle sports businesses.</p> <p>A discussion took place regarding the legitimacy of containers used for storage around the valley and the role of planning enforcement. HS asked MB if NRW can be invited to future WHS board meetings.</p>	<p>FR</p> <p>MB</p>

<p>3. Project Risk Register</p>	<p>Majority of the projects in the risk register are now coloured green to denote they are complete. The exceptions are as follows –</p> <p><u>Volunteers</u> The number of volunteers working on projects are lower than anticipated, but OPL are working with the Rangers to schedule OPL volunteer numbers into their events and are on schedule to meet this target. OPL are collaborating with the Rangers on their volunteer Ranger events and have fifteen people interested in joining this scheme in the Dee Valley.</p> <p><u>Panorama Management</u> The Panorama signage has started to be installed. NRW happy with the location of the signs and the Rangers have started to install in them at locations. It is hoped that these signs will discourage careless parking which damages the ground in four key areas and raise awareness of the area’s status. A biodiversity walk is planned for May and another further into the summer.</p> <p><u>Picturesque Circular Trails</u> The guided walks trails are being used by the Rangers and are proving popular. The only outstanding leaflet is the ‘Discover the Dee Valley Walks’ booklet. The maps are still being developed by the designer and improvement work is being done by the Rangers at Gro Isa. The Railway at Corwen will have large copies of the map on display at the station, to promote Corwen walk routes.</p> <p><u>Interpretation</u> Still waiting for 4 of these panels to be finished and installed at the Horseshoe Falls site. The final draft and comments have now gone to the designer for manufacturing. CRT need to approve replacing the signs in the existing housing. Four Great Highways project want to put interpretive pillars around the WHS and may need to go through the planning group. Needs to keep the look of the WHS interpretation. DS to forward details to MB. A community miles map that proposed for Fron community centre car park is not in keeping with other interpretation boards in the project area. As a key location for the WHS it needs to be discussed with Fron Community Council to see if they are happy for it to follow WHS branding and consistency. DS to follow up with wider team. The Glyn Valley Tramway wall has been cleared of vegetation by their volunteers which will make the plaque more visible.</p> <p><u>Education Packs</u> JH took the group through a presentation of the website educational resources that have been developed. The team will now take the resources to the schools to advise teaching staff how to use.</p>
--	--

DS.

DS/JH

	<p>Wenffrwd Pocket Park Parking charges start 1st May 2024.</p>	
<p>4.Final Evaluation Report.</p>	<p>The monitor has submitted his draft report up to February 2024. There will be some editing to do to the document towards the end of the project but it was very positive report. The link was circulated to the group prior to the meeting. HM took the group through the draft report presentation and discussions were had looking back at memories and successes of the project.</p>	
<p>5.National Landscapes.</p>	<p>The AONB has new branding, and now known as a National Landscapes. All AONB' s encouraged to join with branding funded by DEFRA. OPL logos have been modified to reflect this. New logos shared with the group.</p>	
<p>6. AOB</p>	<p>MB informed the group that a Welsh UNESCO (Welsh WHS and Welsh Geoparks) group is being set up. Any group members with agenda items for the inaugural meeting in June to contact MB.</p>	<p>DS/HS</p>
<p>7. Date of Next Meeting</p>	<p>Next meeting will be Tuesday 9th July 2024 venue – Cadwyn Clwyd, Yr Hen Fanc, Bridge Street, Corwen. LL21 0AH 10 - 12</p>	<p>FR</p>

DRAFT

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag



**Bryniau Clwyd a
Dyffryn Dyfrdwy**
Clwydian Range
and Dee Valley

Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol
Area of Outstanding Natural Beauty

CYD-BWYLLGOR
o'r
CLWYDIAN RANGE A DYFFRYN DYFRDWY
ARDAL O HARDDWCH NATURIOL EITHRIADOL

Wedi'i gynnal: 21 Mehefin 2024

Aelod / Swyddog Arweiniol: Steve Gadd

Awdur yr Adroddiad: Paula O'Hanlon

Teitl: Alldro a Chyfrifon y Cydbwyllgor 2023/24 a Chyllideb ddrafft 2024/25

1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

Mae'r adroddiad yn rhoi manylion sefyllfa alldro cyllideb referniw'r AHNE ar 31 Mawrth 2024 ochr yn ochr â'r gyllideb ddrafft ar gyfer 2024/25.

2. Beth yw'r rheswm dros wneud yr adroddiad hwn?

Pwrpas yr adroddiad yw rhoi diweddariad ar sefyllfa ariannol yr AHNE ar 31 Mawrth 2024 a cheisio cymeradwyaeth i'r gyllideb ar gyfer 2024/25.

3. Beth yw'r Argymhellion?

Gofynnir i Aelodau nodi'r alldro ariannol ar gyfer 2023/24 (Atodiad 1) a'r Balansau Wrth Gefn ar 31 Mawrth 2024 (Atodiad 4). Gofynnir i aelodau gymeradwyo cyllideb ddrafft 2024/25 yn ffurfiol (atodiad 2) ac adolygu a llofnodi'r Datganiad Blynyddol ar gyfer 2023/24 (Atodiad 3).

4. Manylion yr adroddiad.

Mae'r adroddiad yn rhoi crynodeb o alldro referniw'r AHNE ar gyfer 2023/24 y manylir arno yn Atodiad 1. Mae'r sefyllfa alldro derfynol yn dangos gorwariant cyffredinol o £26,439 sydd wedi'i ariannu o'r Gronfa Referniw Wrth Gefn.

Mae'r adroddiad hefyd yn darparu copi o'r Ffurflen Flynyddol ar gyfer cyrff llywodraeth leol llai yng Nghymru ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2024 (Atodiad 3) i'w hystyried a'i chymeradwyo.

5. Sut mae'n cyfrannu at Flaenoriaethau Cynlluniau Rheoli AHNE Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy?

Bydd rheolaeth effeithiol o gyllidebau referniw'r AHNE yn helpu i gyflawni blaenoriaethau'r cynllun rheoli y cytunwyd arnynt ar gyfer y flwyddyn gyfredol ac mae'n sail i weithgarwch ym mhob maes, yn enwedig ein perthynas â phartneriaid ariannu a'n blaenoriaethau ar y cyd.

6. Beth fydd yn ei gostio a sut bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?

Nid oes unrhyw gostau uniongyrchol yn gysylltiedig â'r adroddiad hwn.

7. Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb (EqIA) a gynhaliwyd ar y penderfyniad? Dylid atodi'r templed EqIA wedi'i gwblhau fel atodiad i'r adroddiad.

Ddim yn berthnasol

8. Pa ymgynghoriadau a gynhaliwyd gyda'r Pwyllgorau Archwilio ac eraill?

Mae'r sefyllfa ariannol yn eitem sefydlog ym mhob cyfarfod o'r Cydbwyllgor.

9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid

Mae'r adroddiad hwn yn amlinellu sefyllfa ariannol yr AHNE ar gyfer 2023/24 a 2024/25.

Mae cymeradwyo a llofnodi'r Ffurflen Flynyddol ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2024 (Atodiad 3) yn ofniad statudol cyn i Archwilio Cymru gynnal archwiliad o'r cyfrifon.

Cafwyd cyllid dros dro gan CNC tan 31/03/2027.

Ar 31 Mawrth 2024, roedd balans y Gronfa AHNE (atodiad 4) yn £1,341,030. O hyn, mae £1,270,780 wedi ei glustnodi ar gyfer prosiectau penodol a fydd yn symud ymlaen yn ystod blwyddyn ariannol 2024/25. Mae'r balans o £70,250 ar gael i gefnogi cyllideb referniw 2024/25, disgwylir y bydd angen £53,854 yn 2024/25.

10. Pa risgiau sydd ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?

Mae cyllideb yr AHNE yn dibynnu ar incwm gan CNC, Llywodraeth Cymru a'r tri Awdurdod Lleol. Mae risg na fydd digon o arian i dalu am gost yr AHNE yn y blynyddoedd i ddod oni bai bod adnoddau ychwanegol yn cael eu canfod, gan greu

risg i gyflawniad prosiectau yn y dyfodol a'r gallu i gyflawni yn erbyn blaenoriaethau Cynllun Rheoli'r AHNE.

11. Pŵer i wneud y Penderfyniad.

Mae'n ofynnol i awdurdodau lleol o dan Adran 151 o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 wneud trefniadau ar gyfer gweinyddu eu materion ariannol yn briodol.


Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

AONB JOINT COMMITTEE

(DENBIGHSHIRE, FLINTSHIRE AND WREXHAM COUNCILS)

CORE - REVENUE INCOME AND EXPENDITURE ACCOUNT AT 31st March 2024

	Budget 2023/24	Outturn 2023/24
	£	£
EXPENDITURE		
<u>Employees</u>		
Salaries	203,692	213,808
Training & Conference	2,000	677
Total Employee costs	205,692	214,485
<u>Vehicle and Travel</u>		
Vehicle Hire	400	582
Mileage	2,500	2,871
Use of Public Transport		438
Total Vehicle & Travel Expenses	2,900	3,891
<u>Other</u>		
Protective Clothing	1,500	
Management Plan/Prof fees	2,500	2,500
Subscriptions	3,000	3,840
Audit Fees	1,134	1,582
IT / Communication costs	3,100	3,979
Office Expenses	500	512
Telephones	800	734
Total Other Expenses	12,534	13,148
<u>Projects</u>		
Grants	80,000	94,437
Total Project costs	80,000	94,437
TOTAL EXPENDITURE	301,126	325,961
INCOME		
NRW CRDV Grant	-93,447	-93,447
SDF Mgmt fee	-20,000	-5,928
SDF Grant	-80,000	-94,072
LA Funding	-107,679	-132,514
TOTAL INCOME	-301,126	-325,961
Total Net Expenditure	0	0



AONB JOINT COMMITTEE

(DENBIGHSHIRE, FLINTSHIRE AND WREXHAM COUNCILS)

AREA - REVENUE INCOME AND EXPENDITURE ACCOUNT AT 31st March 2024

	Budget 2023/24	Outturn 2023/24
	£	£
EXPENDITURE		
<u>Employees</u>		
Salaries	196,747	210,719
Training & Conference	500	17
Total Employee costs	197,247	210,736
<u>Vehicle and Travel</u>		
Fuel	4,000	7,118
Fleet	19,000	12,424
Travel	1,200	1,687
